# Fframwaith ar gyfer Buddsoddi Rhanbarthol yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Ymgynghoriad

# Helô



## Am fwy nag 20 mlynedd, mae cyllid yr UE wedi helpu busnesau, pobl a chymunedau ledled Cymru.

Cyflawnodd Llywodraeth Cymru'r buddsoddiad hwn gydag amrywiaeth eang o bartneriaid i greu a diogelu miloedd o swyddi a busnesau, datblygu sgiliau, seilwaith, ac ymchwil ac arloesi.

Nawr ein bod ni wedi gadael yr UE, bydd y cyllid hwn yn dod i ben. Ond mae Llywodraeth y DU wedi addo cyllid yn lle hwn. Felly, mae angen i ni gael fframwaith Cymru newydd i wneud yn siŵr ein bod ni'n defnyddio cyllid newydd y DU hwn yn y ffordd orau.

## Mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthych chi am ein cynlluniau ar gyfer Fframwaith newydd.

Bydd gan y **Fframwaith** newydd hwn gamau ar gyfer penderfynu sut y dylid gwario'r arian hwn yng Nghymru. Bydd yn ein helpu ni i fuddsoddi arian yn y pethau iawn ac yn cefnogi pob rhan o Gymru i dyfu. Felly, rydyn ni eisiau gwybod beth ydy'ch barn chi.

**?**

**Dywedwch wrthym ni beth rydych chi'n ei feddwl am ein cynlluniau a gyfer Fframwaith newydd.**



# Ein cynigion – yr hyn rydyn ni eisiau ei gyflawni

## 4 maes blaenoriaeth

**Rydyn ni eisiau i'r buddsoddi ganolbwyntio ar bedwar maes blaenoriaeth:**

**1** **Cael busnesau cynhyrchiol a chystadleuol**

**2** **Lleihau'r ffactorau sy'n arwain at anghydraddoldeb incwm**

**3** **Cefnogi'r symudiad tuag at economi ddi-garbon**

**4** **Cael cymunedau iachach, tecach, mwy cynaliadwy**

## Nodau llesiant

Mae'n rhaid i'r **Fframwaith** newydd ein helpu ni i gyrraedd ein saith nod llesiant y mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn manylu arnyn nhw.




Rydyn ni eisiau **Fframwaith** newydd sydd:

- yn hyblyg fel ein bod ni'n gallu bod yn greadigol ac uchelgeisiol ein nodau
- yn cefnogi buddsoddi yn y bobl a'r lleoedd lle mae galw amdano a lle y bydd yn gwneud y gwahaniaeth mwyaf
- yn defnyddio tystiolaeth ac yn adeiladu ar wersi a ddysgwyd ac ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda yn y gorffennol
- yn rhoi mwy o bŵer i ranbarthau a chymunedau lleol a fydd yn cysylltu lleoedd a buddsoddiadau mewn ffyrdd gwahanol a llawn dychymyg.

Rydyn ni eisiau:

- creu un gronfa sy'n haws i'w defnyddio
- rhoi mwy o gyfleoedd i ardaloedd gydweithio
- defnyddio'r ffyrdd gorau i fonitro a gwerthuso'r gwahaniaeth y mae'r buddsoddiad yn ei wneud
- rhoi mwy o allu i gymunedau a rhanbarthau wneud penderfyniadau fel bod modd canolbwyntio'r buddsoddi ar y pethau sy'n bwysig iddyn nhw
- gweithio gyda phartneriaid o amgylch y byd i helpu i wneud Cymru'n fwy cystadleuol a'i helpu i fanteisio ar gyfleoedd byd-eang.



# Y model rydyn ni'n ei gynnig – sut olwg fydd arno

**Rydyn ni eisiau Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer buddsoddi sy'n symud gwaith penderfynu'n agosach at y bobl y bydd o fudd iddyn nhw.**

Rydyn ni eisiau i'r **Fframwaith** rymuso cymunedau. Rydyn ni eisiau i bobl chwarae rhan mewn penderfyniadau ynglŷn â buddsoddiadau yn eu hardal nhw. Bydd hyn yn helpu i ariannu'r gweithgareddau iawn a dod o hyd i atebion sy'n diwallu anghenion a chyfleoedd lleol.

Mae'n rhaid i'r **Fframwaith** ddod â dulliau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol o weithio at ei gilydd. Bydd hyn yn tyfu ein heconomi ac yn cyflawni dyfodol ffyniannus i bawb yng Nghymru. Byddwn ni'n defnyddio:

- y Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol sy'n cael eu datblygu ar hyn o bryd – i nodi cyfleoedd ac anghenion lleol
- ffocws ar ddeilliannau – i fesur y gwahaniaeth y mae'r buddsoddi'n ei wneud.

Byddwn ni hefyd yn gweithio â phartneriaethau presennol a rhai newydd i'n helpu ni i ddeall anghenion a'r ffyrdd gorau i'r buddsoddi weithio ar draws rhanbarthau.

Byddwn ni hefyd yn ysgrifennu canllawiau a rheolau i helpu pobl i ddefnyddio'r **Fframwaith** yn effeithiol ac yn deg.





## Cydweithio i wneud y penderfyniadau gorau

**Lefel genedlaethol**

Bydd rhai penderfyniadau buddsoddi'n cael eu gwneud ar lefel genedlaethol. Mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft:


- seilwaith trafnidiaeth
- seilwaith band eang
- cefnogaeth busnes ac entrepreneuriaeth
- cyflogaeth a sgiliau.

**Lefel ranbarthol**

Dylai'r rhanbarthau wneud rhai penderfyniadau buddsoddi. Gallan nhw benderfynu buddsoddi mewn gweithgareddau sy'n gwneud y gwahaniaeth mwyaf ac sy'n eu helpu nhw i ffynnu. Yn ogystal â defnyddio tystiolaeth, mae'n rhaid iddyn nhw wrando ar eu cymunedau. Bydd hyn yn ychwanegu gwerth at ddatblygiad lleol ac yn cryfhau rhwydweithiau.

**Lefel gymunedol**

Dylai'r gymuned benderfynu ar rywfaint o weithgaredd datblygu. Bydd hyn yn ein helpu ni i ddiwallu anghenion amrywiol ar yr adeg ac yn y lle iawn, gan ddefnyddio gwybodaeth, egni ac adnoddau pobl leol.



**1:** Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Pam?

**2:** Ydych chi'n meddwl y dylai rhywfaint o benderfyniadau buddsoddi ddigwydd yn y gymuned y bydd y gweithgaredd yn digwydd ynddi?

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Pam?

# Defnyddio cyllid ad-daladwy

Buddsoddiad y mae'n rhaid ei dalu yn ôl ydy **cyllid ad-daladwy** – fel benthyciad.

Mae buddsoddiadau fel hyn i gefnogi busnesau o bob math i dyfu'n cael eu rheoli'n genedlaethol trwy:

- Fanc Datblygu Cymru
- y Gronfa Tyfu Busnesau Cymdeithasol.

Rydyn ni'n meddwl mai yn genedlaethol y dylen ni reoli hyn. Ond dylai rhanbarthau gael dweud eu dweud ynglŷn â lle yr hoffen nhw weld cyllid yn mynd iddo yn eu hardal nhw.

Os yn **bosibl**, byddwn ni'n targedu cyllid ad-daladwy i gyfateb i'r angen hwnnw.

Os **nad yw'n bosibl**, rydyn ni eisiau cyfuno cyllid grantiau eraill â chyllid ad-daladwy i ddiwallu anghenion.

**3:** Ydych chi'n meddwl y dylen ni ddefnyddio cyllid ad-daladwy yn y ffyrdd hyn?

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Pam?



# Sut rydyn ni eisiau gwneud pethau yn y dyfodol

## Pontio di-dor

Rydyn ni eisiau i'r symudiad o gyllid yr UE fod mor llyfn â phosibl. Dydyn ni ddim eisiau unrhyw fylchau. Felly, mae angen i ni baratoi.

Rydyn ni o'r farn y dylid defnyddio rhywfaint o gyllid yr UE sydd ar ôl i reoli'r symudiad. Mae hyn yn cynnwys:

- cefnogi portffolio o brosiectau ar lefelau cenedlaethol a rhanbarthol
- tyfu sgiliau, a gwneud yn siŵr bod yna ddigon o gymhwysedd ar lefelau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol fel bod pobl yn gallu rheoli buddsoddiad yn y dyfodol.

## Themâu eraill

Mae cyllid yr UE wedi helpu Cymru i gymryd camau ymlaen mewn meysydd fel:

- **Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**
- **Datblygu Cynaliadwy**
- gwneud yn siŵr bod **buddiannau menywod a dynion** yn cael eu cynnwys mewn polisi ac arfer
- diogelu a thyfu'r **Iaith Gymraeg.**

Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod buddsoddi'n parhau i wneud gwahaniaeth positif yn y dyfodol.

## Gweithio ar draws ffiniau

Rydyn ni eisiau i Gymru barhau i dyfu yn rhyngwladol ac agor marchnadoedd newydd. Rhaid i'r **Fframwaith** fod yn ddigon hyblyg i helpu pobl, busnesau a chymunedau i wneud yn fawr o'r cyfleoedd hyn. Rydyn ni eisiau cefnogi rhanbarthau trwy:

- roi'r rhyddid iddyn nhw gael **cyllid** o ffynonellau eraill
- eu helpu nhw i greu cysylltiadau â rhaglenni a **rhwydweithiau Ewropeaidd**
- ehangu **partneriaethau byd-eang** a gwneud yn fawr o gyfleoedd masnachu ac ariannu
- codi proffil **Cymru Wales** o amgylch y byd.

**4:** Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod

Pam?

**5:** Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod

Pam?

**6:** Sut allwn ni ddefnyddio hyn i gynyddu'r iaith Gymraeg?

**7:** Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

◯ Ydw ◯ Nac ydw ◯ Ddim yn gwybod

Pam?

# Meysydd blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi

Rydyn ni eisiau i bob penderfyniad ynglŷn â buddsoddi gefnogi ein meysydd blaenoriaeth.

## Maes 1
### Cael busnesau cynhyrchiol a chystadleuol

**Amcanion** – mae'n rhaid i fuddsoddiad:

- greu swyddi a busnesau teg, o ansawdd uchel
- meithrin sgiliau a hyfforddiant fel bod busnesau Cymru'n gallu bod yn fwy cystadleuol gartref ac o amgylch y byd
- cefnogi twf ar gyfer busnesau bach a chanolig
- gwella ymchwil ac arloesi
- cefnogi busnesau sy'n trosi ymchwil ac arloesi'n gynhyrchion ac yn wasanaethau
- gwneud yn siŵr bod busnesau'n gallu cael y cyllid sydd ei angen arnyn nhw.

## Maes 2
### Lleihau'r pethau sy'n achosi anghydraddoldeb incwm

**Amcanion** – mae'n rhaid i fuddsoddiad:

- ganolbwyntio ar ddatblygu swyddi teg, o ansawdd uchel a chanolbwyntio ar gael mwy o bobl mewn gwaith
- helpu'r gweithlu i addasu i newid, wynebu heriau ac ennill y sgiliau i symud i fyny yn eu gyrfa
- gwella lefelau cymwysterau a sgiliau
- lleihau costau byw hanfodol i bobl ar incymau isel
- lleihau'r gwahaniaethau mewn tâl o ran rhyw, hil a phobl ag anableddau.

## Maes 3
### Cefnogi'r symudiad tuag at economi ddi-garbon

**Amcanion** – mae'n rhaid i fuddsoddiad:

- gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy
- cefnogi'r symudiad tuag at drafnidiaeth carbon isel
- cefnogi prosiectau tai a dulliau adeiladu sy'n lleihau allyriadau
- gwella bioamrywiaeth a gwrthdroi effeithiau nwyon tŷ gwydr
- datblygu sgiliau yn y gweithlu i wneud Cymru carbon isel.

## Maes 4
### Cael cymunedau iachach, tecach, mwy cynaliadwy

**Amcanion** – mae'n rhaid i fuddsoddiad:

- rymuso grwpiau a chymunedau agored i niwed i chwarae rhan, dod o hyd i atebion a gwneud penderfyniadau
- lleihau'r problemau a'r anghydraddoldebau y mae pobl yn eu hwynebu wrth gael gwasanaethau, gweithgareddau a nwyddau
- gwella seilwaith a rhwydweithiau cymdeithasol i helpu lleoedd i fod yn gynaliadwy.

**8:** Beth ydy'ch barn chi ar yr amcanion hyn?

**9:** Sut ddylen ni wirio ein bod ni'n cyrraedd yr amcanion hyn?

# Rheolau teg, clir, a chyson

Rydyn ni eisiau rheoli cyllid yn y ffyrdd gorau. Felly, bydd gennym ni reolau sy'n glir ac yn syml i'w defnyddio.

Mae hwn yn gyfle i gael rheolau teg, clir a chyson sy'n gweithio i Gymru. Mae'n golygu y bydd modd gwneud penderfyniadau yn yr un ffordd ledled Cymru, ac y byddwn ni'n cael gwerth am arian. Mae hefyd yn golygu y gallwn ni osod rheolau sy'n deg i bawb, waeth beth fo maint y busnes neu'r sefydliad, neu ba ranbarth y mae ynddo.

Yn y dyfodol, fe allen ni:

- gadw rhai o reolau'r UE sydd wedi gweithio'n dda
- dysgu o arfer da rhyngwladol arall, fel ffordd Achosion Busnes Gwell o reoli arian.

**10:** Beth ydy'ch barn chi ar ein cynlluniau ar gyfer rheolau teg, clir, a chyson i reoli cyllid?



# Gwirio ei fod yn gweithio

## Gwirio ein bod ni'n cyrraedd ein nodau

Rydyn ni eisiau gwirio bod pob buddsoddiad yn ein helpu ni i gyrraedd ein nodau llesiant a'n pedair blaenoriaeth ar gyfer buddsoddi.

Mae angen i ni wneud yn siŵr ein bod ni'n gallu gwneud hyn. Mae hynny'n golygu gwneud yn siŵr bod gennym ni dimau wedi'u hyfforddi i fonitro a gwerthuso buddsoddiadau ar:

- **lefel ranbarthol** – bydd gan bob rhanbarth ei dîm monitro a gwerthuso ei hun. Byddan nhw'n casglu gwybodaeth am fuddsoddiad rhanbarthol ac yn adrodd ar y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud
- **lefel genedlaethol** – bydd ein tîm yn casglu pob darganfyddiad o ledled Cymru. Byddan nhw'n eu dadansoddi ac yn adrodd arnyn nhw.

Gyda'i gilydd, bydd y wybodaeth hon yn helpu rhanbarthau i weld enghreifftiau o arfer gorau a dysgu'r naill oddi wrth y llall.

## Datblygu gwaith monitro a gwerthuso

Dylai monitro a gwerthuso ddangos:

- pa wahaniaeth tymor hir y mae'r buddsoddiad wedi'i wneud
- pwy y mae wedi bod o fudd iddyn nhw a sut.

Bydd rhanbarthau'n rhydd i ychwanegu eu dulliau gwirio a'u dangosyddion eu hunain i ddangos y deilliannau yn eu hardaloedd nhw. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pob tîm yn cael yr hyfforddiant iawn a'u bod nhw'n meddu ar y sgiliau i wneud hyn. Mae hyn yn bwysig oherwydd bod angen i ni:

- wneud yn siŵr ein bod ni'n cyrraedd ein nodau
- bod â thystiolaeth i lunio polisïau a chynlluniau yn y dyfodol
- gwneud yn siŵr bod gennym ni ddata o ledled Cymru
- bod â chydbwysedd rhwng dysgu ac atebolrwydd
- annog arloesi
- gwneud yn siŵr ein bod ni'n dysgu o arfer gorau.

**11:** Ydych chi'n meddwl y dylen ni gynyddu ein gallu i fynd ati i fonitro a gwerthuso?

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Pam?

**12:** Ydych chi'n meddwl bod hyn yn syniad da?

○ Ydw ○ Nac ydw ○ Ddim yn gwybod

Pam?

**13:** Oes yna unrhyw beth arall y mae angen i ni feddwl amdano?

## Diolch am ddarllen hwn

Anfonwch eich atebion i:

[Fframwaith.BuddsoddiRhanbartholYngNghymru@llyw.cymru](mailto:Fframwaith.BuddsoddiRhanbartholYngNghymru@llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Erbyn: 10 Mehefin 2020

